**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid**
**Minister for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

2 Rhagfyr 2013

Annwyl Jocelyn,

**ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID: CRAFFU AR GYLLIDEB DDRAFFT LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER 2014-15; TACHWEDD 2013**

Diolch am eich adroddiad 'Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15'.

Fel y dywedais yn y cyfarfod llawn o'r Cynulliad ar y Gyllideb Ddrafft, rwyf yn croesawu'r gwaith, sy'n cael ei arwain gan y Pwyllgor, i sicrhau bod craffu effeithiol ar gynigion ein cyllideb. Eleni, wrth gwrs, yw'r flwyddyn gyntaf y mae'r Cynulliad wedi gallu craffu'n llawn ar gyllideb sy'n cynnwys cynigion a ddatblygwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a phleidiau eraill o fewn y Cynulliad. Mae hyn yn ddatblygiad pwysig ac mae'n arwydd o broses gyllideb sy'n fwyfwy effeithiol ac uchel ei pharch, lle mae Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad yn chwarae eu rhan ynddi.

Amgaeaf nodyn yn Atodiad A sy'n ymateb i'r argymhellion penodol ar gyfer Llywodraeth Cymru y tynnir sylw atynt yn adroddiad y Pwyllgor. Byddwn yn parhau i archwilio cyfleoedd i wella proses y gyllideb ac edrychaf ymlaen at barhau'r ddeialog gyson ac adeiladol gyda'r Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

Jane Hutt

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Minister for Finance

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Atodiad A – Ymateb i Argymhellion**

**Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill i sicrhau bod symiau canlyniadol Barnett – boed yn bositif neu'n negyddol – yn cael eu nodi'n eglur cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn gallu cynllunio'n ariannol yn effeithiol ar gyfer y tymor canolig a'r hirdymor.**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynllunio effeithiol ar gyfer y tymor canolig a'r hirdymor. Dyna pam yr wyf wedi pwyso'n barhaus ar Lywodraeth y DU i roi gwybod yn gynnar inni am benderfyniadau gwario a fydd yn effeithio ar ein cyllideb.

Mae hyn wedi bod yn bwysicach nag erioed dros y cyfnod adolygu gwariant cyfredol, pryd, fel y gŵyr y Pwyllgor, y mae Llywodraeth y DU wedi gwneud amryw o gyhoeddiadau gwario y tu allan i drefn a phrosesau arferol gosod y Gyllideb a Datganiadau'r Hydref.

Yng nghyfarfod Pedairochrog y Gweinidogion Cyllid ym mis Tachwedd, gwnaethom drafod y ffordd y mae Llywodraeth y DU yn ymdrin â chyhoeddiadau ariannu a'r angen am eglurder cynnar ac oblygiadau cyhoeddiadau i weinyddiaethau datganoledig. Pwysleisiais bwysigrwydd hysbysu cynnar ac ystyried yr effaith ar weinyddiaethau datganoledig.

**Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynorthwyo llywodraeth leol i archwilio'r potensial ar gyfer creu incwm ychwanegol o ffioedd a thaliadau, ac adolygu pob cap statudol. Hefyd, rydym yn ailadrodd argymhelliad y llynedd (6) fod y Gweinidog Llywodraeth Leol yn adrodd yn ôl ar y potensial i godi ffioedd a chostau, ac effaith gwneud hynny – er mwyn cynyddu incwm a rheoli galw – mewn pryd ar gyfer cyllideb ddrafft y flwyddyn nesaf.**

Yn ystod ei sesiwn gyflwyno tystiolaeth gyda'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, dangosodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ein bod ni'n awyddus i weithio gydag awdurdodau lleol i archwilio'r potensial am drefniadau gwahanol o safbwynt ffioedd a thaliadau. Fodd bynnag, mae'n bwysig fod awdurdodau lleol yn cadw cyfrifoldeb am ystyried effeithiau gosod neu ddileu taliadau yn eu hardaloedd, oherwydd yr awdurdodau lleol fydd yn deall ac yn ymateb i ganlyniadau lleol tebygol camau o'r fath. Mae hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth i effaith cynyddu pwysau ariannol ar drethdalwyr lleol, a fyddai'n gorfod talu llawer o'r ffioedd a'r taliadau uwch.

Er bod hyn yn faes allweddol o godi cyllid, mae'n werth nodi ei bod hi'n bwysig fod awdurdodau lleol yn ystyried y ffynonellau eraill o hunan-ariannu sydd ar gael iddynt ochr yn ochr â grantiau'r llywodraeth ganolog, megis y defnydd o gronfeydd wrth gefn ac incwm treth cyngor. Mae'n bwysig hefyd fod systemau awdurdodau lleol ar gyfer casglu ffioedd a thaliadau'n ddigon trylwyr i gael hynny ag sy'n bosibl o incwm trwy gael cyn lleied ag sy'n bosibl o gostau casglu arian na chafodd ei dalu.

**Argymhelliad 3. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i adolygu'r gwaith o ddosbarthu a rheoli incwm o'r UE ac yn argymell y dylai ail Gyllideb**

**Atodol 2013-14 fynd i'r afael â'r mater.**

Fel y dywedais yn fy llythyr at y Pwyllgor yng nghyd-destun yr Adroddiad Alldro Terfynol 2012-13 (dyddiedig 31 Hydref), rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried eto a ellir gwneud gwelliannau yn y ffordd rydym yn dosbarthu ac yn rheoli incwm Ewropeaidd yn ariannol, o fewn cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth bresennol. Wrth symud ymlaen â'r gwaith hwn, byddwn yn edrych ar ffordd o fonitro hawliadau'n fanylach a rhagamcanu'n gynt fesul maes busnes er mwyn sicrhau bod gennym ddarlun clir o'r alldro mewn da bryd cyn diwedd y flwyddyn.

Bwredir cynnal Ail Gyllideb Atodol yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd ac er nad oes unrhyw effaith uniongyrchol ar gyllidebau'r UE (oherwydd mai addasiadau arian parod yn unig y mae ildio cronfeydd yn eu cynrychioli), gallaf gadarnau y bydd camau'n cael eu cymryd i sicrhau y bydd y cyllid ar gael ar gyfer 2013-14.

**Argymhelliad 4. Er mwyn sicrhau mwy o dryloywder yngly□n â chyfanswm y cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, rydym yn argymell y dylai gyhoeddi dadansoddiad o'r cronfeydd Ewropeaidd sydd ar gael i'w gwario yn ystod y cyfnod y gyllideb honno gyda chynigion y gyllideb.**

Mae rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Awdurdod Rheoli (WEFO) sicrhau mynediad teg ac agored at gronfeydd yr UE sydd o dan ei weinyddiaeth. Er bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid gan WEFO ar gyfer rhai o'i phrosiectau / rhaglenni yn y gorffennol, a bod ganddi bob rheswm dros ddisgwyl y bydd yn gwneud hynny eto, ni allwn ddweud pa brosiectau a fydd yn cael eu datblygu a'u cymeradwyo ar gyfer eu rhoi ar waith yn y cylch nesaf o ariannol, nac ychwaith pa bryd yn union y byddant yn rhedeg. Yn ogystal, mae'r rheoliadau Costau Syml sy'n cael eu cyflwyno gan y Comisiwn yn golygu y gallai'r sail ar gyfer ariannu'r prosiectau hyn fod yn wahanol yng nghylch nesaf y rhaglenni, a gallai hynny effeithio ar amser y derbyniadau o gronfeydd yr UE.

Yn wyneb yr amserlen ansicr ar gyfer datblygu a chymeradwyo prosiectau, mae'n anodd cydamseru cyfnodau cyllidebau cyfredol a chyfnodau rhaglenni Ewropeaidd. Bydd y Pwyllgor yn gwybod bod cyllid Ewropeaidd yn cael ei ddyrannu dros gyfnod rhaglen saith-mlynedd yn hytrach nag ar sail flynyddol, a bod yr ariannu'n cael ei reoli ar sail blwyddyn galendr yn hytrach na blwyddyn ariannol. Yn ogystal, yn y cyfnod y mae'r Gyllideb Ddrafft yn berthnasol iddo, mae yna'r cymhlethdod ychwanegol ein bod ni'n gallu defnyddio cyllid o ddau gyfnod rhaglenni gwahanol, gan fod y gwaith o'u cyflawni'n gorgyffwrdd dros gyfnod o bron i ddwy flynedd.

Rheswm arall dros gymhlethdod wrth ragweld faint o incwm a fydd ar gael dros gyfnod y Rhaglen yw y gall cyfraddau cyfnewid arian amrywio'n fawr yn ystod cyfnod y Rhaglen. Caiff cyllid Ewropeaidd ei ddyfarnu i'r Rhaglenni mewn Ewros, sy'n ei gwneud hi'n anodd penderfynu'n gywir ymlaen llaw ar y lefelau o gyllid a fydd ar gael.

Er ei bod hi'n amlwg fod nifer o ffactorau sydd angen rhoi sylw iddynt, bydd fy swyddogion yn ystyried unrhyw bosibiliadau o ddarparu mwy o dryloywder ar lefel y cyllid Ewropeaidd sydd ar gael dros gyfnod gwario'r gyllideb.

**Argymhelliad 5. Rydym yn argymell bod y Gweinidog Cyllid yn cynnal adolygiad o gynllunio a rheolaeth ariannol o fewn portffolio Cyfoeth Naturiol a Bwyd – yn benodol, cynllunio ar gyfer cyllid Ewropeaidd a'r defnydd ohono.**

Dylai pob Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol fod â chyfrifoldeb sicrhau bod fframwaith cadarn o reolaeth o fewn eu Hadrannau. Dylai hyn gynnwys rheolaeth ariannol drylwyr, trefniadau llywodraethu a phrosesau dibynadwy ar gyfer rheoli risg. Un o'r mecanweithiau a ddefnyddir i roi'r sicrwydd hwn yw trwy waith archwilio mewnol.

Mae archwilio mewnol wedi datblygu dadansoddiad o anghenion archwilio sy'n adnabod pob maes archwiliadwy o fewn Llywodraeth Cymru. O hyn, llunir cynllun archwilio mewnol blynyddol sy'n nodi'r meysydd y bydd yr archwilio mewnol yn ymchwilio iddynt yn ystod unrhyw flwyddyn ariannol. Mae adolygiad o reolaeth gyllidebol o fewn yr Adran Dyfodol Cynaliadwy wedi cael ei drefnu.

**Argymhelliad 6. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog Cyllid adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar y defnydd o'r 'hyblygrwydd' sy'n weddill fel arian cyfatebol ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig.**

Wrth i'n cyllideb dynháu, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn ceisio manteisio i'r eithaf ar ein cyfloedd buddsoddi, gan gynnwys defnydd strategol o gyllid Ewropeaidd. Yng Nghymru, rydym wedi gwneud llawer o ddefnydd o gyllid Ewropeaidd i gefnogi'n buddsoddi trwy Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a'r Cynllun Datblygu Gwledig. Wrth fanteisio ar y cronfeydd hyn, mae cydweithio rhwng pob Gweinidog yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu rheoli'n effeithiol ar y cyd.

Fel mae'r Pwyllgor yn gwybod, mae'r cyllid ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig wedi'i leoli o fewn y Prif Grŵp Gwariant Cyfoeth Naturiol a Bwyd. Mae'n gyfrifoldeb ar bob Gweinidog i sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'r adnoddau sydd ar gael, ac ar y sail honno, mater i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yw'r 'hyblygrwydd' sy'n weddill fel arian cyfatebol ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig.

**Argymhelliad 7. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ddarparu darlun eglur o'r buddsoddiad sydd ar gael a'r gost ar gyfer pob blwyddyn ariannol o gyfnod y gyllideb, wedi'i dadansoddi yn ôl pob maes portffolio.**

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cymaint o eglurder ag sy'n bosibl ym mhob un o'n penderfyniadau buddsoddi, gan gynnwys y buddsoddi a ariennir trwy gynlluniau ariannu arloesol, sydd â chost i'r trethdalwr yn union fel sydd gan fuddsoddi a ariennir gan gyfalaf.

Gyda hynny mewn cof, rwyf yn hapus i ddarparu i'r Pwyllgor Cyllid ddadansoddiad o gostau gwirioneddol, neu, lle bo'n briodol, gostau ragamcanedig, y cynlluniau cyllid arloesol yr ydym wedi eu gweithredu neu eu cyhoeddi. Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor eto gyda'r wybodaeth hon.

**Argymhelliad 8. Rydym yn croesawu'r gwelliannau i'r modd y caiff y gyllideb ei**

**chyflwyno, sy'n adeiladu ar waith a ddechreuwyd y llynedd. Fodd bynnag, rydym yn argymell y dylai'r gwaith hwn barhau i ddatblygu tryloywder o ran yr aliniad rhwng dyraniadau'r gyllideb a'r Rhaglen Lywodraethu.**

**Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau mwy o dryloywder ynglŷn â phenderfyniadau i ail-flaenoriaethu. Dylid rhoi'r un faint o dryloywder i doriadau ag i ddyraniadau ychwanegol.**

**Argymhelliad 16: Rydym yn argymell y dylai unrhyw brosiectau penodol a gyhoeddir yn ystod y flwyddyn gael eu llinell eu hunain yn y gyllideb i gynyddu tryloywder ac eglurder ynglŷn â'r ymrwymiadau cyllido a wneir.**

Rydym wedi ymrwymo i wella trylowder ein cynlluniau gwario a'r ffordd y cânt eu cyflwyno, ac rwyf yn croesawu'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud gyda'n gilydd dros y blynyddoedd diwethaf i hyrwyddo hyn.

Yn y Gyllideb Ddrafft hon, rydym wedi ceisio adeiladu ar y gwaith hwn trwy ddarparu eglurder ar y blaenoriaethau sy'n sail i'n penderfyniadau gwario a mwy o dryloywder yn naratif ein cyllidebau ar sut y mae'n dyraniadau ar draws gwahanol bortffolios yn cefnogi'r blaenoriaethau hyn o safbwynt Twf a Swyddi, Cyrhaeddiad Addysgol a Chefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau o Amddifadedd. Adlewyrchir hyn yn y dull thematig a ddefnyddiwn i gyflwyno'r naratif. Mae Gweinidogion wedi cymryd camau hefyd yn naratif y Gyllideb Ddrafft i nodi'n amlwg lle mae polisïau a rhaglenni'n cefnogi dull ataliol. Gan adeiladu ar y gwaith a wnaethom y llynedd, rydym hefyd wedi cyhoeddi, unwaith eto, ddogfen yn dangos y cysondeb rhwng y canlyniadau yn y Rhaglen Lywodraethu a'r hyn a wnawn yn ein cyllideb. O'u cymryd gyda'i gilydd, mae'n dull eleni wedi helpu darparu gwell dealltwriaeth o'r blaenoriaethau sy'n sail i'n penderfyniadau gwario i'n rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat, yn ogystal â gwell cefnogaeth i'r broses graffu.

Daliwn i fod yn ymrwymedig i adeiladu ar y gwaith yr ydym eisoes wedi'i wneud i wella tryloywder ein cynlluniau gwario a'r ffordd y cânt eu cyflwyno, yn enwedig ystyried dewisiadau o ran sut yr ydym yn cyflwyno gwybodaeth am gyllidebau. Fel yr ydym eisoes wedi'i drafod, nid oes unrhyw ateb hawdd i'r cwestiwn o faint o fanylion y dylem eu darparu yn nhablau'r cyllidebau ac nid oes unrhyw fformat cyllideb a fyddai'n ateb pob cwestiwn y mae ar bob buddiolwr gwahanol eisiau ateb iddo ynghylch cynlluniau'r gyllideb. Rhaid inni gydbwyso'n hymrwymiad i ddarparu gwybodaeth gyda'r angen i gyhoeddi gwybodaeth ystyrlon. Mae hyn yn cynnwys cytuno ar fformat sy'n gwneud synnwyr dros holl gyfnod y gyllideb, er mwyn galluogi i gymariaethau blwyddyn ar flwyddyn gael eu gwneud.

Wedi dweud hynny, byddaf yn ystyried unrhyw botensial ar gyfer gwella ymhellach yr wybodaeth a gyhoeddwn am gyllidebau ac, yn y cyd-destun hwnnw, edrychaf ymlaen at symud ymlaen gyda hyn mewn partneriaeth gyda'r Pwyllgor Cyllid dros y flwyddyn nesaf.

**Argymhelliad 9. O fewn y gyllideb iechyd, ceir diffyg eglurder ynglŷn â bwriadau i ddefnyddio cyllid ychwanegol i fynd i'r afael ag Adolygiad Francis. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog Iechyd egluro'r sefyllfa ar fyrder.**

Ar 17 Hydref, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ysgrifenedig yn rhoi eglurder ychwanegol ar y ddefnydd o'r cyllid hwn, gan gynnwys manylion o sut y bydd y cyllid o £150m ar gyfer 2013-14 yn cael ei ddyrannu i bob Bwrdd Iechyd Lleol.

O'i ystyried gyda'i gilydd, mae'r pecyn ariannu hwn o £570m yn cynrychioli swm sylweddol ac mae'n hanfodol ei fod yn cael ei dargedu lle bydd yn cael yr effaith mwyaf ac yn cyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Cymru. Mae angen i benderfyniadau o'r fath gael eu hystyried a'u cynllunio'n ofalus a bydd gwybodaeth bellach ar y defnydd o'r cyllid hwn yn 2014-15 a 2015-16 yn cael ei ddarparu gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol maes o law.

**Argymhelliad 11. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy o ymdrech i ddarparu tystiolaeth o'r ystyriaethau gwerth am arian sy'n llywio'i phenderfyniadau cyllido. Heb dystiolaeth eglur, ni all pwyllgorau'r Cynulliad a phobl Cymru ddweud yn glir a yw polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru yn darparu gwerth am arian.**

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein penderfyniadau gwario'n cael eu llywio gan dystiolaeth gadarn ac i ystyried gwerth am arian drwy bob agwedd o ddatblygu polisi. Mae hyn yn bwysicach nag erioed yn yr hinsawdd ariannol bresennol, pan mae'n hanfodol fod y dulliau mwyaf cost-effeithiol o gyflawni yn cael eu mabwysiadu.

Mae sicrhau ein bod ni'n cyflawni gwerth am arian trwy wneud hynny o ddefnydd ag sy'n bosibl o'r adnoddau sydd ar gael yn bwysicach nag erioed i'r rheini sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a dyna pam, wrth ystyried dyraniadau cyllideb, yr ydym wedi wedi mwy o bwyslais ar fesurau atal yn hytrach na lliniaru. Rydym hefyd wedi ystyried cydraddoldeb, hawliau plant, anfantais economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg a datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'n cynlluniau gwario ac mae'r ystyriaethau hyn yn darparu tystiolaeth bwysig i gefnogi'n proses o benderfynu. Fel y mae'r Pwyllgor yn gwybod, cafodd asesiad o effaith ein cyllideb ar gydraddoldeb ei gyhoeddi gyda'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2014-15.

Wrth ddyrannu cyllid cyfalaf ychwanegol rhwng y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2014-15 a'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2014-15, rydym wedi ceisio sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi'n cael eu cefnogi gan dystiolaeth gadarn. Mae'r egwyddor hon yn sail i'n hymdriniaeth o fuddsoddi cyfalaf yn fwy cyffredinol ac anelwn at gyflawni pob rhaglen a phrosiect mawr yn unol ag arferion gorau egwyddorion sicrwydd – wrth ddatblygu'r achos busnes gan ddefnyddio Model Busnes 5 Achos Trysorlys Ei Mawrhydi, ac wrth gyflawni, gan ddefnyddio'r arferion gorau mewn rheoli rhaglenni a phrosiectau. Mae'r dull Achos Economaidd o fewn yr Achos Gwell Busnes yn dangos bod amrywiaeth helaeth o ddewisiadau wedi cael eu hystyried a bod gan y dewis a ffefrir y cymysgedd gorau o fuddion, costau, anfanteision a risgiau.

Cydnabyddwn y dylai ystyried gwerth am arian fod yn rhan annatod o'n gwaith o ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau o fewn Llywodraeth Cymru. Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos gydag Adrannau i gefnogi ystyriaeth fwy trylwyr o werth am arian aci sicrhau bod adnoddau'n cael eu buddsoddi'n ddoeth.

**Argymhelliad 12. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog Cyllid bwyso ar y Trysorlys i egluro sut y bydd trafodion ariannol yn effeithio ar y System Cyfnewid Cyllidebau a rhyddid Llywodraeth Cymru i ddwyn cyfalaf ymlaen.**

Rwyf wedi bod yn pwyso ar y Trysorlys am eglurder ar y mater hwn ac yng nghyfarfod Pedairochrog y Gweinidogion Cyllid ar 18 Tachwedd cytunasom, mewn egwyddor, ar fwy o hyblygrwydd ynghylch y defnydd o'r System Cyfnewid Cyllidebau i reoli cyllid trafodaethau ariannol.

Byddaf yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor pan fydd gwybodaeth fanylach ar gael ar y trefniadau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**Argymhelliad 13. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog Cyllid, gan weithio gyda'i chydweithwyr yn y gweinyddiaethau datganoledig eraill, ofyn i Drysorlys Ei Mawrhydi wneud y trefniadau ar gyfer ad-dalu trafodion ariannol yn fwy eglur. Rydym yn argymell hefyd ei bod hi'n adrodd i'r Pwyllgor Cyllid ar allu'r prosiectau y dyrannwyd cyllid trafodion ariannol ar eu cyfer i dalu'r ad-daliadau angenrheidiol.**

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn y broses o ddatblygu proffiliau ad-dalu, ac wrth eu datblygu, rwyf wedi cael trafodaethau gyda chydweithwyr yn y gweinyddiaethau datganoledig eraill.

Bydd angen cytuno ar y proffiliau hyn gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi a byddaf yn diweddaru'r Pwyllgor ar gynnydd gyda'r gwaith hwn maes o law.

**Argymhelliad 14. Rydym yn argymell y dylid rhoi swyddogaeth oruchwylio gryfach i adran Gyllidebu Strategol Llywodraeth Cymru o ran sicrhau bod tystiolaeth a ddarperir i bwyllgorau'n gywir ac yn amserol.**

**Argymhelliad 15. Rydym yn argymell y dylai'r adran Cyfoeth Naturiol a Bwyd wella'i chydgysylltiad â'r Uned Gyllidebau Canolog ar bob cam o broses y gyllideb ar fyrder, yn cynnwys camau'r Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Atodol.**

Rydym wedi cymryd nifer o gamau dros y blynyddoedd diwethaf i wella cysondeb yn y ffordd y darperir gwybodaeth i'r Pwyllgorau ac rwyf yn croesawu cydnabyddiaeth y Pwyllgor o hyn yn ei adroddiad. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys cynhyrchu egwyddorion sylfaenol i Adrannau ar gyflwyno tystiolaeth i Bwyllgorau, ac un o'r rhain yw pwysigrwydd bod yn amserol.

Fel rhan o'r agenda ehangach o wella tryloywder a'r ffordd y cyflwynir gwybodaeth am Gyllidebau, mae gweithgor ar lefel swyddogol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob Adran, gan gynnwys y tîm Cyllidebu canolog. Mae hyn yn sicrhau dull cydgysylltiedig ac ystyrlon rhwng portffolios pob Gweinidog, fel rhan o broses y gyllideb. Byddwn, wrth gwrs, yn parhau i archwilio sut y gallwn wella'r broses ymhellach yng ngoleuni argymhellion y Pwyllgor.

**Argymhelliad 17. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i nodi'r man canol rhwng awydd Llywodraeth Cymru am atebolrwydd, ac awydd llywodraeth leol am ryddid i wario yn ei ffordd ei hun.**

**Gallai cytundeb llwyddiannus, a fyddai'n cael gwared ar grantiau penodol, ryddhau arian sylweddol ar gyfer gwasanaethau rheng flaen.**

Yn ystod yr haf, trafododd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ddewisiadau gyda Gweinidogion eraill ar gyfer cyflwyno grantiau penodol pellach i'r Grant Cynnal Refeniw, gyda'r nod o gynyddu'r hyblygrwydd sydd ar gael i awdurdodau lleol.

Fel mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cydnabod, mae angen inni gydbwyso hyn gyda'r angen i gynnal lefel o atebolrwydd. Rydym eisoes wedi cymryd camau i gynyddu'r hyblygrwydd sydd ar gael i awdurdodau lleol trwy leihau'r nifer o grantiau wedi'u neilltuo. Yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2014-15, roeddem wedi trosglwyddo £64.7m o Grantiau i'r Grant Cynnal Refeniw, a oedd yn cynnwys £28.6m ar gyfer anghenion addysgol arbennig;  £32.9m o'r Grant Adefydlu Anabledd Dysgu; a £3.2m o'r Pecyn Camau Cyntaf. Mae hyn yn codi cyfanswm gwerth y grantiau a ymgorfforwyd yn y Grant Cynnal Refeniw hyd yma yn ystod tymor presennol y Cynulliad i dros £150m.

Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol wedi comisiynu adolygiad o hyblygrwydd ariannu mewn partneriaeth â Llywodraeth Leol, a fydd yn ystyried beth yw'r ffordd orau o sicrhau y gellir defnyddio cyllid, gan gynnwys grantiau penodol, ar gyfer y diben y bwriadwyd iddo gan ddarparu hyblygrwydd addas a lleihau gwaith gweinyddol. Byddwn yn adrodd ar ganfyddiadau'r adolygiad maes o law.

**Argymhelliad 18. Rydym yn argymell bod pob plaid wleidyddol sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau cyllidebol yn y dyfodol yn bod mor glir â phosibl ynglŷn â'r canlyniadau a fwriedir ac ymrwymiadau gwerth am arian, yn enwedig lle mae'r ymrwymiadau hynny'n rhychwantu sawl blwyddyn.**

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein cynlluniau gwario wedi eu llunio i gyflawni'r canlyniadau y mae arnom eisiau eu gweld i Gymru a bod ystyriaethau gwerth am arian yn sail i'n prosesau o wneud penderfyniadau. Mae'r egwyddorion hyn yr un mor berthnasol i'r dyraniadau a wnawn fel rhan o drafodaethau cyllidebol. Yng nghyd-destun cyllideb eleni, mae'r cytundeb gyda Phlaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n adlewyrchu'r blaenoriaethau a rannwn ar gyfer Cymru ac mae'n alinio'n glir ein blaenoriaethau a oedd wedi eu datgan eisoes i gynyddu cyrhaeddiad addysgol a chefnogi pobl agored i niwed.

Fel Llywodraeth, cawn ein dal yn gyfrifol am yr holl benderfyniadau a wnawn, a dyna pam yr oeddwn i'n falch ein bod ni wedi gallu cyrraedd cytundeb ynghynt yn y flwyddyn eleni. Mae'r dull hwn wedi golygu bod y Cynulliad, am y tro cyntaf, wedi cael y cyfle i graffu'n llawn ar Gyllideb a gwn fod y cytundeb cynharach hwn wedi cael ei groesawu gan ein rhanddeiliaid a chan y Pwyllgor Cyllid.

**Argymhelliad 19. Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion weithio'n gyflym i egluro: beth y bwriedir i'r Gronfa Gofal Canolraddol ei gyflawni; a beth fydd y broses a'r meini prawf ar gyfer cyflwyno a chymeradwyo ceisiadau. Rydym hefyd yn argymell y dylid cynnal gwerthusiad trylwyr o'r gronfa wedi iddi fod yn weithredol am flwyddyn a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Cyllid ynglŷn ag i ba raddau y darparodd werth am arian.**

Mae'n buddsoddiad yn y Gronfa Gofal Canolraddol yn adlewyrchu'n hymrwymiad i foderneiddio gwasanaethau, gwella cydweithrediad ar draws gwasanaethau cyhoeddus a chefnogi dull mwy cydgysylltiedig ac ystyrlon rhwng gwasanaethau iechyd, tai a gofal cymdeithasol.

Mae cwmpas eang y Gronfa Gofal Canolraddol, nad yw ond wedi cael ei sefydlu gyda £50m yn 2014-15, yn cael ei drafod gyda llefarwyr Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ac mae wedi cael croeso cyffredinol gan ein rhanddeiliaid. Rydym yn gweithio ar ddatblygu cynigion manwl fel mater o flaenoriaeth.

Bydd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu diweddariad yn fuan i'r Cynulliad ar y gwaith hwn.

**Argymhelliad 20. Ailadroddwn argymhelliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y dylai ystyriaethau cydraddoldeb fod yn rhan ganolog o broses y gyllideb ar gam ffurfiannol. Dylai hawliau plant fod yn rhan allweddol o'r broses hon.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i asesu effaith ein penderfyniadau gwario ar bobl Cymru ac rydym wedi gweithio i ystyried cydraddoldeb, anfantais economaidd-gymdeithasol, hawliau plant, y Gymraeg a datblygu cynaliadwy drwy gydol y broses o gynllunio'r gyllideb. Mae'r dull hwn, sydd wedi bod yn rhan o'r ystyriaethau o'r cychwyn, wedi sicrhau bod ein penderfyniadau gwario'n adlewyrchu anghenion gwahanol poblogaeth Cymru ar hyn o bryd ac yn yr hirdymor.

Fel mae'r Pwyllgor yn gwybod, rydym eleni wedi cymryd camau tuag at ddull integredig o wneud asesiadau o effaith trwy gyhoeddi canlyniad ein gwaith i asesu effaith ein penderfyniadau gwario mewn un ddogfen – yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r dull hwn, sy'n cynnwys ystyriaethau hawliau plant, yn cefnogi'r argymhelliad yn eich adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14, ein bod ni'n symud tuag at ddull mwy integredig o gyflawni asesiadau effaith. Wrth gwrs, mae'r prif bwyslais eleni wedi dal i fod ar gydraddoldeb, ond mae hyn yn adlewyrchu'n profiad cymharol o'r amrywiol asesiadau o effaith a'r ddeddfwriaeth gydraddoldeb sy'n fwy datblygedig.

O safbwynt hawliau plant yn benodol, rydym wedi ymrwymo i gyflawni'n dyletswyddau o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Ar gyfer y gyllideb hon, rydym hefyd wedi ystyried sut mae'n penderfyniadau gwario'n parchu neu'n rhoi mwy o effaith i'r erthyglau a gynhwysir o fewn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Rydym â'n bryd ar adeiladu ar ein dull o ystyried hawliau plant mewn cyllidebau yn y dyfodol gyda'r gwaith rydym yn ei wneud i wella'n ffordd o wneud asesiadau o effaith yn fwy cyffredinol. Bydd y gwaith hwn yn adlewyrchu'r gofyniad o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 y bydd sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn berthnasol i swyddogaethau pob Gweinidog o fis Mai 2014.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu hefyd yn nodi'n hymrwymiad i wella tryloywder cyllidebu i blant a phobl ifanc ar lefel Llywodraeth Cymru. Yn unol ag erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, rydym wedi sicrhau bod gwybodaeth addas ar gael i blant a phobl ifanc. Mae'r camau'r ydym wedi'u cymryd i gefnogi hyn

yn cynnwys datblygu dau becyn cymorth, y cyntaf wedi'i anelu at wella gallu ariannol pobl ifanc 11-19 oed i'w galluogi nhw i ennill gwell rheolaeth o'u cyllid personol, a'r ail i gefnogi awdurdodau lleol a'u partneriaid i gynnwys pobl ifanc wrth gwneud penderfyniadau ynghylch sut i wario cyllidebau lleol sy'n effeithio arnynt. Yn unol â'n dull y llynedd, rydym hefyd wedi cyhoedd taflen gyda'n Cyllideb Ddrafft, sy'n rhoi gwybodaeth ar ein cynlluniau gwario ar gyfer 2014-15 mewn fformat hygyrch i blant a phobl ifanc.

O fewn cyd-destun y bil afraethedig, Bil Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), rydym hefyd yn cymryd camau i symud tuag at ddull mwy integredig o wneud asesiadau o effaith, gan gynnwys ein hystyriaethau ynghylch Hawliau'r Plentyn, a byddwn yn edrych ar ffyrdd o adeiladu ar hyn mewn cyllidebau yn y dyfodol.

**Argymhelliad 21. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei systemau ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer rhoi syniad am gyllidebau'r dyfodol i gyrff darparu cyhoeddus yn sgîl profiad eleni. Dylai hyn gynnwys ystyried llunio rhagolwg blynyddol ffurfiol cyn diwedd tymor yr haf a fyddai'n dangos yn eglur beth fyddai'r senarios gorau a gwaethaf o ran newidiadau i gyllideb y flwyddyn ganlynol a darparu cymorth i gyrff cyhoeddus fel y gallent gynllunio ar y sail honno.**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd rhoi eglurder i'n rhanddeiliaid ac yn ystod cyfnod yr Adolygiad Gwariant hwn, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r sector cyhoeddus ehangach, y trydydd sector a'r sector preifat i'w helpu hwy i reoli'r hyn sydd wedi troi'n gyfres o setliadau cyllidebol anodd. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r tirwedd ariannol wedi newid yn sylweddol ac rydym yn cydnabod yr heriau y mae hyn wedi ei olygu i'n partneriaid wrth ymateb i'r newidiadau hyn.

Ers inni gyhoeddi'n cynlluniau dangosol ar gyfer 2014-15 am y tro cyntaf yn hydref 2011, mae'n cyllideb refeniw ar gyfer y flwyddyn honno wedi lleihau sawl gwaith a hyd yn oed ers cyhoeddi'n cynlluniau dangosol yr hydref diwethaf, mae Llywodraeth y DU wedi lleihau'n Cyllideb ddwywaith, fell mae hi bellach yn £81m yn is yn 2014-15 nag oedd hi ar y cam hwn y llynedd. Er bod y newidiadau hyn wedi golygu her yn ein cynllunio ni, rydym hefyd yn cydnabod yr effaith ar ein partneriaid cyflawni.

Yng nghyd-destun Cyllideb Ddrafft 2014-15, rydym wedi rhybuddio ers peth amser am y gwirionedd plaen ynghylch y penderfyniadau a'r heriau anodd y gwnaethom eu hwynebu wrth gyflawni'n blaenoriaethau o fewn cyllideb sy'n lleihau mewn termau real. Yn enwedig, trafododd y Gweinidog Llywodraeth Leol y potensial am newidiadau mewn lefelau cyllidebau a'r angen am newid gwasanaethau er mwyn gwella effeithlonrwydd, gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Leol dros y misoedd diwethaf. Dros yr haf, ymrwymais i, ynghyd â'm cyd-weinidogion, i gyd-drafod ac ymgynghori ar ein blaenoriaethau gyda'n partneriaid rheng flaen – mewn llywodraeth leol a'r trydydd sector, a hefyd gyda defnyddwyr gwasanaethau.

Er ein bod wedi cymryd camau eleni i gyd-drafod gyda'n partneriaid, byddwn yn pwyso a mesur ein prosesau er mwyn sicrhau bod ein rhanddeiliaid yn gallu rheoli unrhyw newidiadau pellach y gorau y gallant. Mae hyn yn adlewyrchu'n hymrwymiad i weithio'n agored ac yn dryloyw ac i gefnogi'n partneriaid cyflawni i ymateb i bwysau

newydd, galw cynyddol a phwysau costau sy’n uwch na lefelau cyffredinol chwyddiant.